Cofnodion cyfarfod 11 Chwefror 2020 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7.00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Eifion Williams	
Casi Roberts	Lliwen Griffith-Williams	
Cynog	Llŷr Evans	
Nerys John		
	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Dan Williams, Iestyn Harris ac Elliw Williams.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Gwahoddwyd y Cynghorydd Sir I gyflwyno ei adroddiad llafar. Cychwynnodd gydag adroddiad ar y Cynllun atal Llifogydd. Dywedyd bod cyfarfod wedi bod yn y Garddfon ar y 5ed. Mae Swyddfeydd y Contractwyr ar dir y Sailing Club a bod y gwaith wedi cychwyn ers y 10fed.	
2.3	Mae wedi derbyn cwynion am oleuadau stryd. Mae rhaid o'r goleuadau o dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd ac eraill o dan berchnogaeth Scottish Power. Os oes Cwynion mae modd adrodd y rhain I App y Cyngor a bod angen cofnodi rhif y polyn.	
2.4	Dywedodd bod Tân wedi bod ym Mrynffynnon, lle gwelwyd 3 injan dân, Nid oedd yn sicr ond roedd amheuaeth ynglŷn â rhwystr i'r injan dân gael mynediad oherwydd bws.	**CLERC**
2.5	Nid yw wedi clywed dim gwybodaeth bellach am ddatblygiad safle Ferodo ond credir bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am amryw o adroddiadau.	
2.6	Cyfeiriodd at eitem 6.3 ar yr agenda a dywedodd ei fod wedi bod ar y safle a bod yr ymgeisydd wedi estyn gwahoddiad i'r Cyngor ymweld os dymunir.	
2.7	Dywedodd hefyd bod problem cwn yn baeddu. Mater I Gyngor Gwynedd yw hyn.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Lliwen Griffith Williams - Eitem 6.2	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Ionawr 2020, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Trafodwyd ceisiadau am gymorth ariannol am 2019-2020 a phenderfynwyd byddai taliadau eleni yn cyd-fynd a'r ceisiadau am eleni yn unig. Gweler atodlen 1.	
4.3	Daeth anfoneb aelodaeth unllais i law, cytunwyd i'w dalu.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Ionawr 2020 ond bod angen cofnodi'r canlynol: i. 9.2 Y Clerc I anfon at Cyfarwyddwyr angladdau ynglŷn â	

	lleoliadau'r claddedigaethau. ii. 12.0 Polisïau angen ei hail ysgrifennu a'u rhoi ar y wefan. iii. 11.0 Angen cael adroddiad ynglŷn â defnydd o'r Neuadd..	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C20/0025/20/DT – 11 Bryn y Môr, Y Felinheli LL56 4LY – codi lolfa haul ar y balconi presennol. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.2	C20/008/20/DT - 9 Bryn y Môr, Y Felinheli LL56 4LY - cais ar gyfer codi estyniad unllawr to fflat estyniad ochr (i gysyllu'r ty gyda'r modurdy) a phorth blaen - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC -**
6.3	Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ar gyfer codi cyfleusterau marchogaeth newydd yn Sŵn y Coed, Llanfair-is-gaer Caernarfon LL55 1TS - **SYLWADAU -** trafodwyd y mater a phenderfynwyd y canlynol: Bod maint ac uchder yr adeilad yn effeithio cymeriad a chadwraeth yr ardal yn enwedig gan fod Eglwys hynafol a thair mynwent o fewn yr ardal.	**CLERC**
6.4	C20/0118/20/DT – 42 Brynffynnon, Y Felinheli LL56 4SJ – cais deiliad ty ar gyfer dymchwel balcony presennol a chodi balcony newydd yn ei le. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cynllun atal llifogydd - gweler eitem 2.1 penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Swyddog y prosiect a Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r addewid o gynnal cyfarfod cyswllt.	**CLERC**
7.2	Roedd y Cynghorydd Daniel Williams wedi anfon adroddiad ynglŷn â golau solar Cerrig yr afon - roedd wedi cysylltu â Swyddogion Golau Stryd Gwynedd a'i fod wedi cael eglurhad mai cost golau newydd yw .£1000 hefyd mae ar hyn o bryd yn profi golau solar ac mae'r Cynghorydd Eifion Williams am edrych am bracket ar gyfer y golau.	**DW/EW**
7.3	Gofynnwyd a oedd defnydd wedi ei wneud o'r bagiau tywod dros y penwythnos gyda'r storm.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Prydles Llwybr Islaw Ffordd Caernarfon - rhoddwyd cefndir i'r eitem gan y Clerc. Roedd y Cynghorydd Dan Williams yn barod i ymweld â'r safle gyda Mr Glyn Jones bore Sadwrn ac os byddai aelod arall a'r gael ar gyfer y cyfarfod byddai yn gwerthfawrogi. Dywedodd y Cadeirydd y byddai yn cysylltu â'r Cynghorydd.	**DW/IH**
8.2	Darllenodd y Clerc ymateb Adran Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd I adroddiad blynyddol y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd bod yr e-bost yn cael ei anfon at yr aelodau.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Dim i adrodd ar y fynwent.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Meysydd Chwarae - trafodwyd cynnwys y Llythyr Cyngor Gwynedd a phenderfynwyd anfon ymateb yn datgan bod y Cyngor Cymuned yn fodlon ystyried ymhellach os byddai safon y meysydd yn cael ei godi. Y Clerc I anfon ymateb.	**Clerc**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd diweddariad ysgrifenedig ar faterion y Neuadd gan y	

	Cynghorydd Daniel Williams	
11.2	Mae'r pensaer wedi ymweld â'r Neuadd gydag adeiladwr ar gyfer y tendr, gobeithir dod o hyd i drydydd pris.	**DW/Swyddog Ariannol**
11.3	Mae'r gwaith CCTV yn mynd yn ei flaen gobeithir codi'r pedwar camera arall yn y dyfodol agos.	**DW**
11.4	Byrddau sgwar(3) wedi eu derbyn.	**DW**
11.5	Er mwyn trwsio'r llechen sydd wedi dod i lawr oddi ar y to mae angen sgaffald, mae'r adeiladwr ar hyn o bryd yn ceisio cael prisiau.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	EISTEDDFOD	
	cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Nerys John bod cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal yng Nghapel Bethania a bod pwyllgor lleol wedi ei sefydlu gyda Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. Ar hyn o bryd mae cyfanswm Y Felinheli yn sefyll ar £800 oherwydd bod gwobrau wedi eu neilltu ar gyfer cystadlaethau gan aelodau o'r pentref. Anfonwyd dymuniadau gorau i'r pwyllgor apêl leol.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:10	
Llofnod:		**Dyddiad:**

Atodlen/Appendix 1.

Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Applications for Financial Assistance

2020

Cymdeithas/Organisation	**Mantolen/Financial Statement**	**Swm/Amount**
Y Goriad	√	200
Clwb Peldroed	√	2000
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli	√	1200
Pwyllgor Regata		300
Clwb y Felin		100
Clwb Peldroed Ieuenctid	√	500
Gŵyl y Felin		1000
PARCH	√	500
Felinheli Guides		100
Brownies Y Felinheli		100
CIC Bethania	√	200